Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dysgu Oedolion yng Nghymru

2017

© Hawlfraint y Goron 2017
WG32471 ISBN Digidol: 978 1 78859 166 9

**Cynulleidfa**
Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Helen Scaife, Llywodraeth Cymru, Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili, CF83 8WT
Ffôn: 0300 025 3895
e-byst: Post16PlanningandFunding@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Buddiannau dysgu oedolion | 4 |
| Y Blaenoriaethau i Gymru | 5 |
| Ein ffocws | 5 |
| Ariannu, cyd-fuddsoddi ac adennill costau llawn | 8 |
| Cynnydd a chanlyniadau | 8 |
| Datblygu Dysgu Oedolion | 9 |

## Rhagair y Gweinidog

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymdeithas sy'n rhoi bri ar uchelgais a dysgu. Mae ein ffyniant a'n sefydlogrwydd yn y dyfodol yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd pobl Cymru, ac rydym o'r farn bod pawb yn haeddu'r cyfle i gyrraedd eu potensial. Yn ogystal, fel cymdeithas rwyf am inni werthfawrogi dysgu.


Mae Dysgu Oedolion yn helpu i ddatblygu sgiliau, yn gwella iechyd a llesiant ac yn ffordd o sbarduno gwaith ymgysylltu ac integreiddio cymdeithasol.

Mae sgiliau yn hanfodol i economi'r wlad ac rydym am helpu oedolion i fagu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith; neu i symud ymlaen i ddysgu pellach. Rydym am sicrhau bod pob person yng Nghymru yn cael cyfle i fagu sgiliau sylfaenol da i'w helpu i fyw a ffynnu yn ein cymunedau.

Yn ogystal â magu sgiliau, mae Dysgu Oedolion yn dod â manteision ehangach. Rydym am annog pob un oedolyn i fwynhau dysgu.

Mae Dysgu Oedolion yn broses mor werthfawr am fod ganddi'r potensial i gyrraedd unigolion ar lawr gwlad, yn arbennig y rhai na fyddent fel arall2511 yn mynd ati i ddysgu. Byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau cyhoeddus ar helpu'r rhai sydd fwyaf angen ein help; i sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a symud ymlaen. Rydym o'r farn bod hwn yn fuddsoddiad pwysig a gwerth chweil mewn unigolion a chymunedau.

Mae dysgu yn weithgarwch gydol oes. Rydym am gael cymunedau sy'n ffynnu yn ogystal â byw. Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Dysgu Oedolion ac yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd dysgu i bobl drwy gydol eu bywydau. Rydym am sicrhau bod ein cymdeithas yn parhau i ddysgu, i herio ac i wella.



*Alun Davies*
*Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes*

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad polisi hwn yn cyflwyno blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu i oedolion yn ystod Tymor presennol y Cynulliad; ac mae'n esbonio ei gyfraniad i'r uchelgais a amlinellwyd yn *Symud Cymru Ymlaen,* sef Cymru ffyniannus a chadarn, Cymru iach ac egnïol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig. Ein nod yw cynorthwyo oedolion i chwarae rôl amlwg yn yr economi a'r gymdeithas drwy wella eu cyfleoedd dysgu.

Rydym wedi wynebu gostyngiadau sylweddol i'n cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y blynyddoedd diwethaf. Mae sefyllfa ariannol y sector yn parhau i fod yn fregus yn sgîl toriadau ychwanegol. Rhaid i ni fod yn realistig ynghylch y cyllid a fydd ar gael i ni a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau ohono. Felly, mae'n hollbwysig bod gennym bolisi sy'n datgan gwerth ac effaith dysgu oedolion ac sy'n cefnogi dyfodol cynaliadwy a chyfartal i'r maes cyflenwi hollbwysig hwn.

Er mwyn cael darlun cliriach o'r materion sy'n wynebu'r sector dysgu oedolion yng Nghymru, fe wnaethom gomisiynu dau adolygiad – ac mae'r adolygiadau hyn wedi hysbysu'r gwaith o ddatblygu'r datganiad polisi hwn[1].

Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd gan ARAD Research yn amlygu natur annheg ac anghynaliadwy bresennol cyllid a strwythur Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru, a phwysleisiodd achos clir dros newid. Roedd yn amlygu'r anghydraddoldeb o ran y cyllid a'r ddarpariaeth sydd ar gael ledled Cymru, a diffyg strategaeth gydlynus a chlir gan Lywodraeth Cymru. Deilliodd chwe argymhelliad o'r adolygiad – a bydd pob un ohonynt yn cael eu trafod naill ai fel rhan o'r datganiad polisi hwn neu wrth i waith pellach gael ei wneud i wella'r strwythurau cyllido a chyflenwi yn y sector.

Roedd adroddiad Estyn ar *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru 2015-2016* yn darparu darlun cliriach i ni o'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned bresennol yn dilyn y toriadau cyllid. Yn yr un modd ag adroddiad ARAD, cododd Estyn rai pryderon clir am gynaliadwyedd y sector dysgu oedolion, natur fregus y cyllid a'r diffyg strategaeth gydlynol ar gyfer gwella sgiliau cyflogadwyedd oedolion yng Nghymru. Cyflwynodd Estyn achos clir hefyd dros newid yn y sector.

Mae'r datganiad polisi hwn yn ymateb uniongyrchol i'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn. Ceisia fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â diffyg gweledigaeth ar gyfer y sector, a darparu eglurder ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i oedolion yng Nghymru. Dyma yw'r cam cyntaf. Bydd angen rhagor o waith yn y misoedd nesaf i wella'r strwythur cyllid a chyflenwi yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn dechrau ar ôl cyhoeddi'r datganiad polisi hwn.

Mae ein gweledigaeth yn glir:

***Cymru lle mae dysgu yn elfen ganolog o bopeth a wnawn; lle mae cyfranogiad mewn dysgu yn cael ei annog a'i wobrwyo; a lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i ennill y sgiliau a'r gwaith sydd eu hangen arnynt mewn bywyd i ffynnu.***

[1] *A Review of Adult Community Learning in Wales* – Arad Research – Hydref 2016; a *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru* – Estyn – Tachwedd 2016

## Buddiannau dysgu oedolion

Mae dysgu gydol oes yn cefnogi datblygiad sgiliau, yn gwella iechyd a lles ac yn gatalydd ar gyfer ymgysylltiad ac integreiddiad cymdeithasol.

Mae cyfranogi mewn dysgu oedolion yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd a lles unigol; yn ogystal â gwella sgiliau.

Mae helpu pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithle yn flaenoriaeth amlwg i Lywodraeth Cymru.

Mae 23 y cant o boblogaeth Cymru yn parhau i fyw mewn tlodi cymharol. Y gyfran hon yw'r uchaf yn y DU y tu allan i Lundain. Yng Nghymru hefyd y mae'r ganran uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi – un o bob tri – o unrhyw wlad yn y DU.

Mae tystiolaeth yn dangos mai gwaith â thâl yw'r llwybr gorau allan o dlodi; ac rydym yn ceisio darparu cymorth i'r bobl sydd angen mynediad at waith.

Ond nid yw helpu pobl i mewn i waith yn ddigon. Dengys y ffigurau diweddaraf bod 55% o bobl sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd sy'n gweithio. Hefyd, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae mwy na dwy ran o dair o blant mewn tlodi yn y DU mewn teuluoedd sy'n gweithio. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymorth i'r rhai sydd eisoes mewn gwaith i wella eu sgiliau a ffynnu.

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd yn yr hydref, a fydd yn nodi sut y byddwn yn cefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt a chynnal cyflogaeth gynaliadwy.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r gwaith o gyd-gynllunio'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd ar gyfer Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hintegreiddio. Byddwn hefyd yn gweithio gydag Uned Gwaith ac Iechyd DWP i dreialu dulliau arloesol newydd o gynorthwyo pobl â chyflyrau iechyd i ddychwelyd i'r gwaith ac i barhau mewn gwaith.

Er bod gan dysgu oedolion rôl glir i gefnogi ein rhaglenni Cyflogadwyedd; a'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd, mae'r buddiannau o ymgysylltu mewn dysgu yn llawer mwy pellgyrhaeddol na datblygu sgiliau yn unig.

Yn *Valuing the Impact of Adult Learning*, dangosodd Daniel Fujiwara effeithiau cadarnhaol dysgu oedolion ar nifer o feysydd allweddol bywyd[2]:

- tebygolrwydd uwch o ddod o hyd i swydd a/neu barhau mewn swydd;
- gwelliannau i iechyd;
- cydberthnasau cymdeithasol gwell;
- mwy o debygolrwydd y bydd pobl yn gwirfoddoli yn rheolaidd.

---

[2]Valuing the Impact of Adult Learning (Daniel Fujiwara) NIACE 2012

## Y Blaenoriaethau i Gymru

Mae Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn credu bod addysg yn hawl dynol i bawb trwy gydol eu bywyd a bod angen i'r mynediad at addysg gyfateb ag ansawdd yr addysg.

Rydym yn cytuno â hyn. Mae pawb yn haeddu'r cyfle i gyrraedd eu potensial ac mae addysg yn newid bywydau ac yn hybu twf economaidd. Credwn hefyd y dylai dysgu fod yn arfer gydol oes. Byddwn yn hybu sector dysgu oedolion sy'n cynorthwyo ein hoedolion i barhau i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn dilyn rhai egwyddorion penodol i arwain ein prosesau cyflenwi:

- **Teg a chyfartal –** dylai pob dysgwr gael mynediad cyfartal i ddarpariaeth a dylai gael ei chyflenwi mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn lleol a'i bod yn gwneud y defnydd gorau o'r lleoliadau sydd ar gael – gan gynnwys ysgolion, neuaddau cymunedol a llyfrgelloedd ac yn y blaen.
- **Sicrhau Ansawdd –** Bydd ansawdd ein darpariaeth yn parhau yn uchel. Rydym eisiau sicrhau dull cyflenwi cyson ledled Cymru, a hynny o safon a gydnabyddir ar draws y sector. Byddwn yn parhau i weithio gydag Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi yng Nghymru) i asesu ansawdd cyflenwi a phrofiad y dysgwyr.
- **Wedi'u hariannu'n deg –** Byddwn yn sicrhau bod ein cyllid yn cael ei ddosbarthu mewn dull clir a chyson, a'i fod yn cael ei dargedu ar gyfer y dysgwyr sydd angen ein cymorth fwyaf.
- **Lleol –** byddwn yn grymuso ein darparwyr i gyflenwi darpariaeth sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol ac sy'n eu targedu.

## Ein ffocws

Bydd ein ffocws ar gefnogi'r rhai sydd angen ein cymorth fwyaf.

Disgwyliwn i'n darparwyr gydweithio i nodi a mynd i'r afael ag anghenion eu cymunedau lleol, gan osgoi dyblygu. Wrth wneud hyn disgwyliwn iddynt ystyried a blaenoriaethu'r meysydd allweddol canlynol â phwys cenedlaethol.

### Sgiliau hanfodol

Rydym eisiau cefnogi pob oedolyn i wella eu Sgiliau Hanfodol, er mwyn iddynt fod yn y sefyllfa orau i gael mynediad at gyfleoedd gwaith neu i wneud cynnydd mewn cyflogaeth.

Byddwn yn ariannu'r ddarpariaeth o:

- Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol – gan gynnwys Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL);
- Defnydd Hanfodol o Sgiliau Rhif;

Bydd y cyrsiau hyn am ddim i bob dysgwr hyd at lefel weithredol[3].

## Sgiliau digidol

Rydym yn byw mewn cymdeithas gynyddol ddigidol, ac mae'n bwysig ein bod yn cynorthwyo pobl i ymgysylltu'n llawn gyda'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio heddiw.

Byddwn yn ariannu'r ddarpariaeth o:

- Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol hyd at Lefel 2 - i helpu dysgwyr i ddod yn fwy cyfarwydd â'r defnydd o dechnoleg ddigidol, a'i defnyddio'n fwy hyderus, yn ogystal â sut i'w defnyddio'n ddiogel a chyfrifol.

## Sgiliau cyflogadwyedd

Yn ogystal â chymwysterau llythrennedd a rhifedd ffurfiol, mae tystiolaeth yn dangos bod cyflogwyr am gael staff sy'n meddu ar sgiliau da ym meysydd cyfathrebu, gwaith tîm a datrys problemau, sy'n eu gwneud yn 'barod am waith'[4]. Gwyddom fod cyswllt rhwng enillion unigolyn â'u lefel o gymhwyster. Er mwyn cynyddu ffyniant ar hyd a lled Cymru, mae angen dull cydlynol o ystyried sgiliau.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflenwi Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol hyd at Lefel 2 i helpu pobl i fod yn barod i ymuno â'r gweithle - gan gynnwys cefnogi'r gwaith o gyflenwi'r cymhwyster Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol newydd.

Byddwn yn gweithio gyda Rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a DWP i sicrhau bod ein darpariaeth dysgu oedolion yn cynorthwyo, yn ategu, ond nid yn dyblygu ein darpariaeth gyflogadwyedd ehangach.

## Dysgwyr hŷn ac Ymgysylltiad cymdeithasol

Mae dysgu yn cyflwyno llawer o fuddiannau amrywiol i bobl hŷn.

Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae'r oedran ymddeol yn codi. Oherwydd bod angen i bobl barhau mewn gwaith am gyfnod hwy, mae'n hollbwysig eu bod yn gallu parhau i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd.

Rhagwelir y bydd angen i gyflogwyr, dros y 10 mlynedd nesaf, *lenwi tua 13.5 miliwn o swyddi gwag...ond dim ond 7 miliwn o bobl ifanc fydd yn gadael yr ysgol a'r coleg yn y cyfnod hwn. Ni fydd mudo ei hun yn llenwi'r bwlch...bydd angen i gyflogwyr ddibynnu ar weithwyr hŷn i lenwi'r swyddi gwag hyn*.[5]

Rhaid inni hefyd gydnabod effaith dysgu ar iechyd a lles cymdeithasol ehangach pobl hŷn. Wrth i'n poblogaeth heneiddio, dementia yw un o'r problemau iechyd a chymdeithasol mwyaf difrifol i ni eu hwynebu. Mae *Law yn Llaw at Gymru sy'n Deall Dementia* yn nodi'r ffyrdd y byddwn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan ddementia yng Nghymru. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ysgogi'r ymennydd yn llai tebygol o

[3] Lefel weithredol yw'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg neu Gymraeg, a defnyddio mathemateg, ar lefel angenrheidiol i weithredu a chynnydd mewn gwaith a chymdeithas. Byddwn yn ceisio sefydlu Sgiliau Hanfodol Lefel 2 fel yr uchelgais i'r mwyafrif o oedolion heb y lefel briodol o gymwysterau – fel y nodir yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau, (Llywodraeth Cymru, 2014),

[4] *What Employers Want*, Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) 2014

[5] CIPD (2012) Managing a Health Ageing Workforce: A National Business Imperative.

ddatblygu dementia, o gymharu â'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu yn y gweithgareddau hyn.[6]

Mae dysgu fel ffurf o ymgysylltiad cymdeithasol ac ysgogiad meddyliol yn bwysig iawn i ddysgwyr hŷn, nid yn unig er mwyn eu helpu i gadw'n actif ac iach; ond hefyd i helpu i drechu unigrwydd ac arwahanrwydd – sy'n uchelgais glir i'r Llywodraeth yn *Symud Cymru Ymlaen* Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn cefnogi darparu cyrsiau ymgysylltiad cymdeithasol drwy glybiau a grwpiau dysgu hunan-gyfeiriedig, galluogi pobl i barhau i gyfranogi mewn dysgu mewn ffordd anffurfiol wrth i hynny gael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles.

## Gweithgarwch Ymgysylltu a chyrsiau 'bachyn'

Mae pobl yn dychwelyd i ddysgu am nifer o resymau. Mae nifer yn dychwelyd yn y gobaith o ennill sgiliau newydd i'w helpu i ddod o hyd i waith neu i barhau mewn cyflogaeth.

I eraill, gall dod yn rhiant fod yr ysbrydoliaeth sydd ei hangen i ddychwelyd i ddysgu. Mae ein hymgyrch *Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref* yn datgan mai'r cartref yw'r ffactor unigol mwyaf mewn cyrhaeddiad addysgol[7]. Drwy greu amgylchedd sy'n gwerthfawrogi addysg ac sy'n cefnogi dysgu'r plentyn, gall rhieni a gofalwyr roi hwb arwyddocaol i'w plentyn mewn bywyd. Bydd hyn ond yn llwyddo os oes gan y rhieni a'r gofalwyr eu hunain y sgiliau i helpu eu plant. Mae'n hollbwysig i ni ein bod yn cefnogi ein teuluoedd i ffynnu.

Mae nifer o ysgolion yn defnyddio eu Grant Datblygu Disgyblion eu hunain i agor eu hystafelloedd dosbarth i rieni a gofalwyr yn ystod neu ar ôl oriau ysgol i'w hannog i ddysgu. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i ymgysylltu â darparwyr Dysgu Oedolion, ac yn defnyddio rhaglenni megis y Grant Datblygu Disgyblion, i gyflenwi darpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar oedolion a phlant.

Byddwn yn cefnogi'r ddarpariaeth o weithgarwch ymgysylltu ysgafnach fel dull o ddenu dysgwyr a fyddai'n oedi cyn cymryd rhan fel arall.

## Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Mae gwella mynediad at addysg Cyfrwng Cymraeg yn un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru. Rydym eisiau cynyddu argaeledd ein cyrsiau sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r galw ac yn unol â safonau'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith[8] i annog dysgwyr i ymgysylltu mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwella eu sgiliau iaith.

[6] www.alzheimers.org.uk/info/20010/risk_factors_and_prevention/737/how_to_reduce_your_risk_of_dementia
[7] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy
[8] Mae Mentrau Iaith yn sefydliadau cymunedol gwirfoddol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru - www.mentrauiaith.org

## Ariannu, cyd-fuddsoddi ac adennill costau llawn

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael i ni drwy flaenoriaethu cymorth i'r rhai sydd angen ein help fwyaf, ond bydd ymdrech glir i wella mynediad at sgiliau Cyfathrebu Hanfodol; Gweithrediad Hanfodol o Sgiliau Rhif, Llythrennedd Digidol ac ESOL fel y flaenoriaeth gyntaf.

I rai oedolion, gall dychwelyd i ddysgu fod yn frawychus, ac efallai y bydd angen eu hail-gyflwyno'n raddol i ddysgu.

Disgwylir i ddarparwyr gydweithio i nodi a mynd i'r afael â materion sy'n fwyaf perthnasol i'w hanghenion lleol; a rheoli'r cyllid a ddarparwyd ar eu cyfer i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Byddwn yn parhau i gefnogi cwricwlwm o gyrsiau hamdden ac adloniant i ddysgwyr sy'n seiliedig ar y ddealltwriaeth y disgwylir i ddysgwyr, lle bynnag y bo'n bosibl, gyfrannu at gost eu dysgu eu hunain drwy dalu ffioedd. Mae darparwyr eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i gynnig amrediad mor eang â phosibl o gyfleoedd i bobl. Byddwn yn helpu darparwyr i sicrhau bod cyrsiau yn parhau i fod yn fforddiadwy a hygyrch.

Pan fydd y galw am y blaenoriaethau pwysicaf (Sgiliau Hanfodol, ESOL a Llythrennedd Digidol) wedi'i gyflawni. Bydd gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i ddefnyddio unrhyw gyllid sy'n weddill i gynnig gostyngiadau i helpu dysgwyr i ymgysylltu mewn gweithgarwch. Byddwn yn caniatáu i'r darparwyr ddefnyddio eu disgresiwn i benderfynu ar lefel y cymorth y byddant yn ei chynnig.

Mae gan gyflogwyr rôl bwysig hefyd yn ariannu rhywfaint o'r ddarpariaeth hon. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ddarparu hyfforddiant sy'n sicrhau bod eu gweithlu yn cydymffurfio â gofynion statudol; neu bod gofyniad cyfreithiol ar unigolion gydymffurfio â hwy er mwyn gwneud eu gwaith. Ond rydym hefyd yn eu hannog i sicrhau eu bod yn parhau i wella sgiliau eu cyflogeion drwy gefnogi eu dysgu - naill ai yn y gweithle neu'r tu allan i'r gweithle.

## Cynnydd a chanlyniadau

Disgwylir i ddysgwyr sy'n ymgysylltu yn y ddarpariaeth y byddwn yn ei hariannu sicrhau bod ganddynt ganlyniadau pendant a gynlluniwyd ar gyfer eu dysgu a'u cynnydd at gyflogadwyedd, dysgu pellach, neu well integreiddiad cymdeithasol.

Pan fydd unigolion wedi'u hannog i ddychwelyd i ddysgu drwy weithgarwch ymgysylltu, disgwylir iddynt symud i ddarpariaeth mwy prif ffrwd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu dal mewn cylch o weithgarwch ymgysylltu.

Waeth pa fath o ddysgu a wneir, disgwyliwn i ddarparwyr weithio gyda dysgwyr i sicrhau bod canlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer yr holl ddysgu a bod y canlyniadau hyn yn cael eu monitro'n effeithiol.

### Cymwysterau ac achrediad

Pan fydd yn briodol, dylai darparwyr annog dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau achrededig, i'w galluogi i gyflawni'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith neu i symud ymlaen i ddysgu pellach.

Mae achrediad yn ffordd ddefnyddiol o gofnodi'r lefelau sgiliau a gyflawnwyd, ond rhaid inni sicrhau bod pobl yn astudio ar gyfer cymwysterau sy'n berthnasol a defnyddiol i'w datblygiad yn y dyfodol. Cynlluniwyd cymwysterau diwygiedig Sgiliau Hanfodol Cymru i asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer dysgu, cyflogaeth a bywyd llwyddiannus.

Nid yw gwneud cynnydd bob amser yn golygu ennill cymwysterau, ac nid yw canlyniadau meddalach yn llai perthnasol i rai unigolion. Byddwn yn parhau i gynorthwyo darparwyr i ddefnyddio systemau megis RARPA (Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad) a Bathodynnau Agored [9] i fonitro a chofnodi canlyniadau dysgu anffurfiol i sicrhau nad yw cynnydd dysgwyr yn cael ei ddiystyru os nad ydynt yn cyflawni cymhwyster ffurfiol.

Ein nod yw cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu sgiliau a symud ymlaen – naill ai i mewn i waith, dysgu pellach, gwell integreiddiad cymdeithasol, neu iechyd a lles gwell.

## Datblygu Dysgu Oedolion

Er mwyn sicrhau dyfodol dysgu oedolion yng Nghymru, byddwn yn ymrwymo i'r canlynol:

### Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Mewn ymgynghoriad â'r sector, yn cyflwyno strwythur cyllid a chyflenwi newydd i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf;
- Cydweithio gyda'r adrannau gwahanol yn Llywodraeth Cymru i gydgysylltu mentrau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, iechyd a chymunedau;
- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at yr holl ddarpariaeth sydd ar gael iddynt a bod llwybrau cynnydd clir i ddarpariaeth prif ffrwd pan fydd hynny'n briodol;
- Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y Ganolfan Byd Gwaith a darparwr y Rhaglen Gwaith ac Iechyd newydd yng Nghymru i alinio'r cymorth a sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i ddysgwyr yng Nghymru i sicrhau trosglwyddiad llyfn i gyflogaeth;
- Parhau i ddatblygu mesurau perfformiad a data meincnodi i helpu darparwyr Dysgu Oedolion i werthuso canlyniadau dysgwyr;
- Adeiladu ar egwyddorion RARPA i gefnogi'r broses o fesur canlyniadau 'meddal' ar gyfer dysgu heb fod yn achrededig;

[9] Mae Bathodynnau Agored yn wobrau digidol y gellir eu storio ym 'mag digidol' myfyriwr. Mae'n bosibl ennill y bathodynnau drwy gwblhau tasgau a nodau sy'n cael eu pennu gan y cyhoeddwr, er enghraifft darparwr dysgu.

- Gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch, a'r Brifysgol Agored yn benodol, i sicrhau bod llwybrau cynnydd gwell o ddysgu oedolion i a thrwy addysg uwch.

### Disgwylir i ddarparwyr:

- Sicrhau bod darpariaeth wedi'i hariannu yn cael ei thargedu at y rhai â'r angen mwyaf, gyda phwyslais clir ar fynd i'r afael ag anghenion Sgiliau Hanfodol, Llythrennedd Digidol ac ESOL;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strwythur cyllid a chyflenwi sy'n sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cyrraedd y rhai â'r angen mwyaf;
- Cydweithio mewn partneriaethau ffurfiol neu anffurfiol (gan gynnwys y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu nodi a'u datrys;
- Parhau i rannu arfer da drwy Rwydwaith Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymru i sicrhau bod y sector yn parhau i wella a herio ei hun;
- Parhau i werthuso canlyniadau gan ddefnyddio data ystadegol, RARPA a barn dysgwyr i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a'r dulliau cyflenwi yn parhau i fod yn uchel;
- Cydweithio er mwyn diddymu dyblygu a gwella cyfleoedd dysgu a llwybrau cynnydd.